**ADRAN 84 - DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFORDD 1984**

**HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD I WNEUD GORCHYMYN PARHAOL**

**CYNGOR SIR FYNWY**
**GORCHYMYN CYDGRYNHOI RHEOLIADAU RHEOLEIDDIO TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYMDER A PHARCIO CYNGOR SIR FYNWY 2019 (GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 5) 2022**

**DARPARIAETH ARFAETHEDIG A DIWYGIADAU I ORCHMYNION TRAFFIG MEWN LLEOLIADAU AMRYWIOL O FEWN CYMUNED CIL-Y-COED A CHYMUNED Y DYFAWDEN YNG NGHYNGOR SIR FYNWY**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ("y Cyngor") yn bwriadu gwneud Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffordd fel a ganlyn:

**EFFAITH Y GORCHYMYN**: cyflwyno terfynau cyflymder amrywiol o fewn yr ardaloedd a nodwyd ar y cynlluniau, sydd ar gael i'w gweld yn Neuadd y Sir, Brynbuga neu ar-lein ar y dudalen we https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/cyngor-sir-fynwy-deddf-rheoleiddio-traffig-ffordd-1984/ Cyflwyno terfyn cyflymder o 30 mya ar y B4293 o fewn Cymuned y Dyfawden a chyflwyno terfyn cyflymder o 20 mya a 30 mya ar y B4245 o fewn Cymuned Cil-y-coed a chyflwyno terfyn cyflymder o 30 mya ar Heol Cil-y-coed o fewn Cymuned Cil-y-coed.

Gellir archwilio rhagor o fanylion am y Gorchymyn arfaethedig, sy'n cynnwys cynlluniau a datganiad o resymau dros gynnig gwneud y Gorchymyn, drwy apwyntiad a drefnwyd o flaen llaw yn Neuadd y Sir, Brynbuga NP15 1GA (gellir trefnu apwyntiadau drwy e-bostio traffic@monmouthshire.gov.uk) neu drwy ffonio 01633 644644 neu ar-lein drwy https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/cyngor-sir-fynwy-deddf-rheoleiddio-traffig-ffordd-1984/ neu drwy'r cod QR isod

Dylid gwneud unrhyw wrthwynebiadau mewn perthynas â'r cynnig hwn yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y mae'r gwrthwynebiad yn cael ei wneud a dylid ei anfon i'r Adran Draffig, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga NP15 1GA heb fod yn hwyrach na 5pm ddydd Mercher 31ain Awst 2022 neu drwy sganio'r cod QR isod a dewis "Sut i roi sylwadau ar Orchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig", lle gellir cael gafael ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

**Dyddiedig: 3ydd Awst 2022**

**Mark Hand,**
**Pennaeth Creu Lleoedd, Adfywio, Priffyrdd a Llifogydd,**
**Cyngor Sir Fynwy,**
**Neuadd y Sir,**
**Y Rhadyr,**
**Brynbuga,**
**Sir Fynwy.**
**NP15 1GA**